# Mynediad i Ddyfrffyrdd Mewndirol

## Bwriad Polisi Amlinellol Llywodraeth Cymru

**Fforwm Mynediad Cenedlaethol**
**05/11/19**

Bwriad y papur hwn yw darparu eglurder ar y cyfeiriad a ffefrir gan Lywodraeth Cymru o ran mynediad i ddyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden. Mae'n darparu rhywfaint o gyd-destun a chefndir diweddar, ond nid yw'n atgynhyrchu'r hanes manwl sydd wedi'i ddogfennu'n gynhwysfawr.

### Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer mynediad ehangach i gefn gwlad at ddibenion hamdden.

Cafodd y cynnig i *estyn y darpariaethau yn Rhan 1 o Ddeddf CRoW sy'n ymwneud â thir mynediad i afonydd a dyfroedd mewndirol eraill (Cynnig 14)* ei gynnwys yn ymgynghoriad 2017 ar Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy (SMNR), ac mae wedi hollti barn. https://llyw.cymru/bwrw-ymlaen-rheoli-adnoddau-naturiol-cymru-yn-gynaliadwy

Mae cynigion Mynediad eraill a all gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cynnig 11 (dirymu rhai cyfyngiadau ar fynediad yn Atodlen 2 o Ddeddf CRoW)
- Cynnig 16 (ymddwyn yn gyfrifol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ar ddyfroedd ac ar dir)
- Gall cynigion eraill i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth Hawliau Tramwy gael effaith ar fynediad ar draws tir i ddyfrffyrdd mewndirol

Cafwyd amryw o ymatebion o blaid deddfu ar gyfer mynediad i ddŵr ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai modurol, gan gynnwys canŵio a nofio. Mae llawer o ddefnyddwyr chwaraeon dŵr yn dadlau'n gryf bod ganddyn nhw hawl gyfreithiol hanesyddol i fordwyo ar afonydd, ond mae llawer o enweirwyr a physgotwyr eraill yn gwrthod yr hawliau hyn, gan honni y byddai mynediad agored i ddyfroedd mewndirol yn creu anghydraddoldeb oherwydd ffioedd trwyddedau pysgota, perchnogaeth tir a hawliau glannau afon, ynghyd ag awgrymu y byddai hyn yn cael effeithiau amgylcheddol andwyol ar silio a stociau pysgod o ganlyniad i hynny.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw hawliau cyhoeddus statudol cyffredinol mewn perthynas â mynediad i ddyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden yng Nghymru, ac ychydig iawn o gyfraith gyffredin. Mae pysgota a chwaraeon dŵr yn darparu manteision twristiaeth, economaidd-gymdeithasol, iechyd a llesiant sylweddol i Gymru. Byddai cyflwyno hawliau mynediad cyhoeddus i afonydd a dyfroedd mewndirol eraill yn darparu mwy o eglurder i ddefnyddwyr; fodd bynnag, byddai'n cael effeithiau amrywiol ac yn denu gwrthwynebiad gan sawl rhan o'r gymuned enweirio, rheolwyr tir a pherchnogion tir/glannau afon.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ers 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi ddlau dros drefniadau mynediad gwirfoddol (VAAs) a chefnogi'r defnydd o'r cyfleoedd hyn a chyfleoedd eraill ar ddyfroedd mewndirol trwy gynllun ariannu Sblash (2008-2014). Fodd bynnag, mae gwrthdaro rhwng gwahanol grwpiau rhanddeiliaid o hyd, gyda nifer gyfyngedig o VAAs ar waith ar hyn o bryd.

**Y Sefyllfa Bresennol a'r bwriad polisi ehangach**

Dywedodd y Dirprwy Weinidog, yn ei Datganiad Ysgrifenedig ym mis Ebrill 2019 a fframiodd agwedd Llywodraeth Cymru at gynigion Mynediad SMNR:

- 'Mae ein Polisi Adnoddau Naturiol yn dangos y gall atebion sy'n seiliedig ar natur roi hwb i iechyd corfforol a meddyliol. Dyna pam yr ydym wedi ymrwymo fel Llywodraeth i alluogi mwy o bobl i fwynhau ein cefn gwlad yn rhwyddach – a gwneud yn fawr o'r manteision niferus o ran iechyd a llesiant a all ddeillio o fynd allan i'r awyr agored.
- Mae cefn gwlad hygyrch yn ategu ein hymdrechion i hybu Cymru fel cyrchfan i dwristiaid a phot mêl i gerddwyr, beicwyr a phobl sy'n chwilio am gyffro.'

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi creu Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (ARAG) i edrych yn fanwl ar amryw o gynigion Mynediad SMNR. Bydd eraill yn cael eu datblygu gan swyddogion, gyda chraffu mwy cyfyngedig gan ARAG.

Cafodd yr angen i drin Cynnig 14 ar wahân i'r prif brosesau Diwygio Mynediad ei amlinellu yn y Datganiad Ysgrifenedig hefyd: "*Ymhellach, byddaf yn gofyn i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol roi blaenoriaeth arbennig yn 2019 i osod y sylfaen ar gyfer cael gwell deialog am faterion yn ymwneud â dyfroedd mewndirol. Rwy'n annog rhanddeiliaid yn gryf i ddod o hyd i ateb ymarferol ar y cyd. Nid wyf wedi diystyru cyflwyno deddfwriaeth ar fynediad yn y dyfodol, yn enwedig os na fyddaf yn fodlon fod cynnydd rhesymol wedi ei wneud o fewn 18 mis.*"

**Y Bwriad Polisi ar gyfer Mynediad i Ddŵr**

Mae'n glir bod y Dirprwy Weinidog yn dymuno gweld rhanddeiliaid yn cymryd camau cydunol, cydweithredol i gynyddu mynediad i ddyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden, gan gynnwys y canlyniadau canlynol:

- Mwy o gyfranogiad ar draws pob math o weithgareddau hamdden
- mwy o ddyfroedd mewndirol yn hygyrch yn fwy aml

Wrth weithio tuag at y canlyniadau hyn, dylid hwyluso **ymgysylltu adeiladol**.

Mae'r amserlen ar gyfer asesu camau gweithredu yn erbyn dyhead Gweinidogion yn cael ei phennu gan gylch gwaith ARAG, gyda thystiolaeth glir o gynnydd tuag at nodau Llywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2021. Bydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn adrodd canlyniadau trafodaethau ei is-grŵp a chasgliadau ac argymhellion cysylltiedig.

I alluogi trafodaeth agored, ni fydd cynigion deddfwriaethol yn cael eu cyflwyno yn y cyfnod hwn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Egwyddorion Ymgysylltu**

Dylai trafodaethau gael eu harwain a'u sbarduno gan randdeiliaid.
Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r trafodaethau hyn gael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru a CNC fel ei chynghorwyr statudol ar faterion mynediad.

Dylai is-grŵp o'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol gael ei greu, gan gynnwys cynrychiolaeth gytbwys o wahanol ddiddordebau yn cynnwys genweirwyr, canŵ-wyr, tirfeddianwyr a chyrff cyhoeddus.

Nod y grŵp hwn fydd asesu gwahanol opsiynau i gynyddu mynediad, parchu gwahanol safbwyntiau a diddordebau, dangos tystiolaeth o gynnydd a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.

Bydd cyfarfod cychwynnol a hwylusir yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru a CNC i sicrhau bod trefniant, cylch gwaith a chadeirydd yr is-grŵp yn cael eu cytuno yn y cyfarfod cyntaf. Bydd dogfen yn cytuno i hyn yn cael ei chynhyrchu ar ôl y cyfarfod a hwylusir a'i chytuno gan aelodau yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp.

Dylai'r meysydd i'w trafod ac opsiynau posibl gael eu cytuno yn y cyfarfod cyntaf a hwylusir.

Yna, dylai'r opsiynau hyn gael eu trafod ymhellach a'u profi yn erbyn meini prawf a ddefnyddir gan y Rhaglen Diwygio Mynediad ehangach, sef:

a. Ehangder mynediad
b. Ansawdd mynediad
c. Natur Barhaol
d. Eglurder a Sicrwydd
e. Cost
f. Monitro a Gorfodi
g. Tegwch mynediad
h. Mwy o effeithlonrwydd a thryloywder

Gall opsiynau ganolbwyntio ar ymestyn cwmpas y dyfroedd a gwmpesir gan VAAs trwy wahanol ddulliau, a deddfu ar gyfer mynediad cyfyngedig megis afonydd a enwir, mynediad tymhorol, mynediad yn seiliedig ar lefel yr afon neu ffyrdd eraill o dargedu darpariaeth mynediad i sicrhau'r budd mwyaf posibl.

Gallai'r is-grŵp ganolbwyntio hefyd ar gamau gweithredu a mentrau sy'n debygol o hyrwyddo mwy o gydweithrediad a chonsensws rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr, megis y rhai sy'n canolbwyntio ar fonitro neu wella iechyd afonydd.

Ar gyfer y broses hon, <u>ni</u> ofynnir i'r is-grŵp ystyried:

- Opsiwn 'gwneid dim'
- Deddfwriaeth ar gyfer hawliau statudol cyffredinol ar gyfer mynediad at ddibenion hamdden